



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 Rhif 1898 (Cy.199)

2002 No. 1898 (W.199)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

ATAL CREULONDEB

PREVENTION OF CRUELTY

**Rheoliadau Lles Anifeiliaid a
Ffermir (Cymru) (Diwygio)
2002**

**The Welfare of Farmed Animals
(Wales) (Amendment) Regulations
2002**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn gweithredu Cyfarwydddeb y Cyngor 1999/74/EC dyddiedig 19 Gorffennaf 1999 sy'n nodi safonau gofynnol ar gyfer diogelu ieir dodwy (O.J. L203, 03/08/1999 t.35-57).

These Regulations, which apply to Wales only, implement Council Directive 1999/74/EC of 19 July 1999 laying down minimum standards for the protection of laying hens (O.J. L203, 03/08/1999 p.35-57).

Mae'r Rheoliadau'n gwneud y diwygiadau canlynol i Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001/2682 (Cy.223)) ("y Prif Reoliadau") -

The Regulations make the following amendments to the Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2001 (S.I. 2001/2682 (W.223)) ("the Principal Regulations")-

- Mae'r diffiniad o "iâr ddodwy" yn y Prif Reoliadau yn cael ei ddiwygio ac mae diffiniadau newydd ar gyfer "llaesodr", "nyth" a "lle y gellir ei ddefnyddio" yn cael eu mewnosod (rheoliad (2)).
- Mewnosodir rholiad 5 ac Atodlen 3 newydd i gymhwysu gofynion mewn perthynas â chadw ieir dodwy mewn systemau heblaw y rhai y cyfeirir atynt yn yr Atodlenni 3A, 3B, 3C a 3Ch newydd i'r Prif Reoliadau (rheoliadau 2(4) a (7)).
- O 6 Awst 2002 ymlaen, rhaid i bob system ddi-gawell sy'n cael ei hadeiladu o'r newydd neu ei hail-adeiladu (ysguboriau, clwydfeydd a systemau buarth) gydymffurfio â'r darpariaethau a nodir mewn Atodlen 3A newydd sy'n cael ei mewnosod yn y Prif Reoliadau. Rhaid i bob system o'r fath gydymffurfio â'r Atodlen 3A newydd o 1

- The definition of "laying hen" in the Principal Regulations is amended and new definitions for "litter", "nest" and usable area" are inserted (regulation 2(2)).
- A new regulation 5 and Schedule 3 is inserted to apply requirements in relation to the keeping of laying hens other than in systems referred to in the new Schedules 3A, 3B, 3C and 3D to the Principal Regulations (regulations 2(4) and (7)).
- From 6th August 2002 all newly built or rebuilt non-cage systems (barns, percheries and free-range systems) must comply with the provisions set out in a new Schedule 3A inserted into the Principal Regulations. All such systems must comply with the new Schedule 3A from 1st January 2007. Schedule 3A sets minimum requirements in respect of

Ionawr 2007 ymlaen. Mae Atodlen 3A yn nodi'r gofynion mewn perthynas â lle i ieir fwydo, maint cafnau yfed, lle i'r nyth, clwydi, man o dan laesodr, adeiladwaith y gosodiadau a dwysedd stocio.

- O 1 Ionawr 2003 ymlaen, bydd darpariaethau newydd yn gymwys ar gyfer lles ieir sy'n cael eu cadw mewn cewyll confensiynol ("batri"). Mae Atodlen 3B newydd yn nodi safonau gofynnol mewn perthynas ag arwynebedd cawell i bob iâr, cafnau bwydo, darparu dŵr, uchder y cewyll, adeiladwaith y lloriau a darparu dyfeisiau ar gyfer cwtogi crafangau. Gwaherddir defnyddio cewyll confensiynol o 1 Ionawr 2012 ymlaen ac ni all unrhyw gewyll o'r fath gael eu hadeiladu, na dechrau cael eu defnyddio, o 1 Ionawr 2003 ymlaen.
- Mae Atodlen 3C newydd yn cael ei mewnosod, sy'n nodi safonau gofynnol uwch ar gyfer systemau cewyll ar gyfer magu ieir dodwy a fydd yn gymwys i bob system gewyll o 1 Ionawr 2012 ymlaen. Rhaid i bob system gewyll sy'n cael ei hadeiladu neu y dechreuir ei defnyddio o 1 Ionawr 2003 ymlaen gydymffurfio â'r safonau uwch hyn.
- Nodir safonau cyffredinol a fydd yn gymwys i bob system newydd ar gyfer magu ieir dodwy mewn Atodlen 3Ch newydd i'r Prif Reoliadau. Mae'n cynnwys gofynion mewn perthynas ag archwilio ieir, lefelau sŵn, darparu golau, glanhau a diheintio, dylunio cewyll a gwahardd llurgunio, ond mae'n caniatáu tocio pigau tan 31 Rhagfyr 2010, o dan amodau penodol, gan gynnwys cydymffurfio â Gorchymyn Llawfeddygaeth Filfeddygol (Esemptiadau) 1962.

Mae arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ac wedi'i gyhoeddi ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru (www.cymru.gov.uk). Gellir cael copïau hefyd oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

feeding space for hens, size of drinking troughs, nest space, perches, littered area, construction of installations and stocking density.

- From 1 January 2003 new provisions will apply to the welfare of hens kept in conventional ("battery") cages. A new Schedule 3B sets required standards in respect of cage area per hen, feeding troughs, provision of water, height of cages, construction of floors and the provision of claw shortening devices. The use of conventional cages is prohibited with effect from 1 January 2012 and no such cages may be built or brought into use from 1 January 2003.
- A new Schedule 3C is inserted which sets enhanced required standards for cage systems of rearing laying hens that will apply to all cage systems from 1 January 2012. All cage systems built or brought into service from 1 January 2003 must also comply with these enhanced standards.
- General standards applicable to all systems of rearing laying hens are set out in a new Schedule 3D to the Principal Regulations. It includes requirements in respect of inspection of hens, sound levels, provision of light, cleansing and disinfection, design of cages and a prohibition on mutilation, but permits beak trimming until 31st December 2010, under certain conditions, including compliance with the Veterinary Surgery (Exemptions) Order 1962.

A regulatory appraisal has been prepared and published on the National Assembly for Wales website (www.wales.gov.uk). Copies can also be obtained from the National Assembly for Wales, Animal Health Division, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2002 Rhif 1898 (Cy.199)**2002 No. 1898 (W.199)****ANIFEILIAID, CYMRU****ANIMALS, WALES****ATAL CREULONDEB****PREVENTION OF CRUELTY**

**Rheoliadau Lles Anifeiliaid a
Ffermir (Cymru) (Diwygio)
2002**

**The Welfare of Farmed Animals
(Wales) (Amendment) Regulations
2002**

Wedi'u gwneud 18 Gorffennaf 2002
Yn dod i rym 6 Awst 2002

Made 18th July 2002
Coming into force 6th August 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968 ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(a), ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 2 o Ddeddf 1968 yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by section 2 of the Agriculture (Miscellaneous Provisions) Act 1968 and now vested in it(a), and after consultation in accordance with section 2 of the 1968 Act, makes the following Regulations:

Teitl, cymhwyso a chychwyn**Title, application and commencement**

1.-(1) Teitl y Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2002 ac maent yn gymwys i Gymru yn unig.

1. -(1) These Regulations shall be cited as the Welfare of Farmed Animals (Wales) (Amendment) Regulations 2002 and apply to Wales only.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) o'r rheoliad hwn, daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Awst 2002.

(2) Subject to paragraph (3) of this regulation, these Regulations shall come into force on 6th August 2002.

(3) Daw rheoliad 2(3) o'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ionawr 2003.

(3) Regulation 2(3) of these Regulations shall come into force on 1st January 2003.

Diwygio Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001**Amendment to the Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2001**

2.-(1) Diwygir Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001(b) yn unol â darpariaethau'r rheoliadau hyn.

2.-(1) The Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2001 (b) shall be amended in accordance with the following provisions of this regulation.

(2) Yn rheoliad 2(1) -

(2) In regulation 2(1) -

(a) yn lle'r diffiniad o "iâr ddodwy" rhoddir y diffiniad canlynol -

(a) for the definition of "laying hen" the following definition shall be substituted -

"ystyr "iâr ddodwy" ("*laying hen*") yw iâr o'r rhywogaeth *Gallus gallus* sydd wedi cyrraedd aeddfedrwydd dodwy ac sy'n cael ei chadw i

""laying hen" ("*iâr ddodwy*") means a hen of the species *Gallus gallus* which has reached laying maturity and is kept for production of

(a) 1968 p.34. Gweler adran 50 i gael diffiniad o "the Ministers". Mewn perthynas â Chymru, cafodd pwerau "the Ministers" eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(a) 1968 c. 34. See section 50 for a definition of "the Ministers". In relation to Wales, the powers of "the Ministers" were transferred to the National Assembly for Wales by article 2(a) of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(b) O.S. 2001/2682 (Cy. 223).

(b) S.I. 2001/2682 (W. 223).

gynhyrchu wyau na fwriedir iddynt ddeor;"

- (b) ar ôl y diffiniad o ystyr "iâr ddodwy" ("*laying hen*") rhoddir y diffiniad canlynol -

"ystyr "llesodr" ("*litter*") yw unrhyw ddefnydd hyfriu sy'n galluogi'r ieir i ddiwallu i'w hanghenion etholegol;"

ac ar ôl y diffiniad o ystyr "mochyn" ("*pig*") rhoddir y diffiniad canlynol -

ystyr "nyth" ("*nest*") yw lle ar wahân i iâr unigol neu grŵp o ieir ddodwy wyau, sef lle na chaiff cydrannau ei lawr gynnwys rhwyllau gwifrog a all ddod i gysylltiad â'r aderyn neu'r adar;" ac

- (c) ar ôl mewnosod y diffiniad uchod o ystyr "llesodr" ("*litter*"), mewnosoder y diffiniad canlynol -

"ystyr "lle y gellir ei ddefnyddio" ("*usable area*") yw lle a ddefnyddir gan ieir dodwy, heb gynnwys man nythu, sy'n 30cm o led o leiaf, a gogwyddiad y llawr heb fod yn fwy na 14%, ac yn 45 cm o uchder o leiaf;"

(3) Diddymir rheoliad 4 ac Atodlen 2.

(4) Yn lle Rheoliad 5 rhoddir y rheoliad canlynol:

"Dyletswyddau ychwanegol perchenogion a cheidwaid dofednod (heblaw'r rhai sy'n cael eu cadw yn y systemau y cyfeirir atynt yn Atodlenni 3A, 3B a 3C)

5. Rhaid i berchenogion a cheidwaid dofednod (heblaw'r rhai sy'n cael eu cadw yn y systemau y cyfeirir atynt yn Atodlenni 3A, 3B a 3C) sicrhau, yn ychwanegol at y gofynion a nodir yn Atodlen 1, fod yr amodau y mae'r adar yn cael eu cadw odanynt yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Atodlen 3."

(5) Ar ôl rheoliad 5 ychwanegir y rheoliad canlynol:

"Dyletswyddau ychwanegol perchenogion a cheidwaid ieir dodwy

5A. Rhaid i berchenogion a cheidwaid sefydliadau a chanddynt fwy na 350 o ieir dodwy sicrhau, yn ychwanegol at y gofynion a nodir yn Atodlen 1, fod yr amodau y mae'r adar yn cael eu cadw odanynt yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Atodlenni 3A, 3B, 3C a 3CH."

(6) Yn Atodlen 1 -

- (a) yn lle paragraff 2(3)(a) rhoddir y paragraff canlynol -

"(a) yn achos ieir dodwy a gedwir ym mhob system, paragraff 1 o Atodlen 3CH;" a

- (b) yn lle paragraff 7(b)(i) rhoddir y paragraff canlynol -

eggs not intended for hatching";

- (b) after the definition of "laying hen" the following definitions shall be inserted -

"litter" ("*llesodr*") means any friable material enabling the hens to satisfy their ethological needs;

"nest" ("*nyth*") means a separate space for egg laying for an individual hen or a group of hens, the floor components of which may not include wire mesh that can come into contact with the bird or birds;" and

- (c) after the definition of "statutory welfare code", the following definition shall be inserted -

"usable area" ("*lle y gellir ei ddefnyddio*") means an area used by laying hens, not including a nesting area, which is at least 30cm wide with a floor slope not exceeding 14% and with headroom of at least 45 cm;"

(3) Regulation 4 and Schedule 2 shall be revoked.

(4) For regulation 5 there shall be substituted the following regulation:

"Additional duties on owners and keepers of poultry (other than those kept in the systems referred to in Schedules 3A, 3B and 3C)

5. Owners and keepers of poultry (other than those kept in the systems referred to in Schedules 3A, 3B and 3C) shall ensure that, in addition to the requirements set out in Schedule 1, the conditions under which the birds are kept comply with the requirements set out in Schedule 3."

(5) After regulation 5 the following regulation shall be added:

"Additional duties on owners and keepers of laying hens

5A. Owners and keepers of establishments with more than 350 laying hens shall ensure that in addition to the requirements set out in Schedule 1, the conditions under which the birds are kept comply with the requirements set out in Schedules 3A, 3B, 3C and 3D."

(6) In Schedule 1 -

- (a) for paragraph 2(3)(a) there shall be substituted the following paragraph -

"(a) in the case of laying hens kept in all systems, paragraph 1 of Schedule 3D;" and

- (b) for paragraph 7(b)(i) there shall be substituted the following paragraph -

"(i) yn achos ieir dodwy a gedwir ym mhob system, paragraff 1 o Atodlen 3Ch;"

(7) Yn lle Atodlen 3 rhoddir y darpariaethau canlynol:

"ATODLEN 3

rheoliad 5

AMODAU YCHWANEGOL Y MAE'N RHAI CADW DOFEDNOD (HEBLAW'R RHAI SY'N CAEL EU CADW YN Y SYSTEMAU Y CYFEIRIR ATYNT YN ATODLENNI 3A, 3B A 3C) ODANYNT

Pan gedwir unrhyw ddofednod (heblaw'r rhai sy'n cael eu cadw yn y systemau y cyfeirir atynt yn Atodlenni 3A, 3B a 3C) mewn adeilad, rhaid iddynt gael eu cadw ar laesodr, neu rhaid iddynt bob amser allu mynd at laesodr, sydd wedi'i gynnal yn dda, neu at fan wedi'i draenio'n dda ar gyfer gorffwys."

(8) Ar ôl Atodiad 3 mewnosodir Atodlenni 3A, 3B, 3C a 3Ch a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(9) Yn lle paragraff (a) o reoliad 12 rhoddir y paragraff canlynol -

"(a) Cyfarwyddeb y Cyngor 99/74/EC(a) sy'n gosod safonau gofynnol ar gyfer diogelu ieir dodwy."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

18 Gorffennaf 2002

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

"(i) in the case of laying hens kept in all systems, paragraph 1 of Schedule 3D;"

(7) For Schedule 3 there shall be substituted the following provisions:

"SCHEDULE 3

regulation 5

ADDITIONAL CONDITIONS UNDER WHICH POULTRY (OTHER THAN THOSE KEPT IN THE SYSTEMS REFERRED TO IN SCHEDULES 3A, 3B AND 3C) MUST BE KEPT

Where any poultry (other than those kept in the systems referred to in Schedules 3A, 3B, and 3C) are kept in a building they shall be kept on, or have access at all times to, well-maintained litter or to a well-drained area for resting."

(8) After Schedule 3 there shall be inserted the Schedules 3A, 3B, 3C and 3D set out in the Schedule to these Regulations.

(9) For paragraph (a) of regulation 12 there shall be substituted the following paragraph -

"(a) Council Directive 99/74/EC(a) laying down minimum standards for the protection of laying hens."

Signed on behalf of the National Assembly for Wales

18th July 2002

John Marek

Deputy Presiding Officer of the National Assembly

(a) OJ Rhif L 203, 3.8.99, t.53

(a) OJ No. L 203, 3.8.99, p.53.

ATODLEN

Rheoliad 2(8)

"ATODLEN 3A

rheoliad 5A

SYSTEMAU DI-GAWELL

1. Rhaid i bob system ddi-gawell sy'n cael ei hadeiladu o'r newydd neu ei hail-adeiladu ar gyfer cadw ieir dodwy a phob system gynhyrchu o'r fath y dechreuir ei defnyddio am y tro cyntaf gydymffurfio â gofynion yr Atodlen hon.

2. O 1 Ionawr 2007 ymlaen, rhaid i bob system ddi-gawell ar gyfer cadw ieir dodwy gydymffurfio â gofynion yr Atodlen hon.

3. Rhaid i bob system gael ei chyfarparu mewn ffordd sy'n golygu bod gan bob iâr ddodwy:

- (a) naill ai bwydwr llinol sy'n rhoi o leiaf 10 cm i bob iâr neu fwydwr crwn sy'n rhoi o leiaf 4 cm i bob iâr;
- (b) naill ai cafn yfed parhaol sy'n rhoi 2.5 cm i bob iâr neu gafn yfed crwn sy'n rhoi 1 cm i bob iâr, a hefyd, os defnyddir pigynnau dŵr neu gwpanau, rhaid cael o leiaf un pigyn dŵr neu gwpan i bob 10 iâr. Os yw'r manau yfed wedi'u plymio, rhaid cael o leiaf ddau gwpan neu ddau bigyn dŵr o fewn cyrraedd i bob iâr;
- (c) o leiaf un nyth i bob saith iâr. Os defnyddir nythod grŵp, rhaid cael o leiaf 1 m² o le nythu ar gyfer uchafswm o 120 o ieir;
- (ch) clwydi, heb ymylon miniog ac sy'n rhoi o leiaf 15 cm i bob iâr. Rhaid peidio â gosod clwydi uwchben y llaesodr a rhaid i'r pellter llorweddol rhwng y clwydi fod yn 30 cm o leiaf a rhaid i'r pellter llorweddol rhwng y glwyd a'r wal fod yn 20 cm o leiaf; a
- (d) o leiaf 250 cm² o fan o dan laesodr i bob iâr, a'r llaesodr dros o leiaf un traean o arwynebedd y llawr.

4. Rhaid adeiladu lloriau gosodiadau fel y gallant gynnal pob un o grafangau'r iâr sy'n wynebu ymlaen ar bob troed.

5. Yn ychwanegol at ofynion paragraffau 2 a 3-

- (a) os defnyddir systemau magu lle gall yr ieir dodwy symud yn rhydd rhwng gwahanol lefelau -
 - (i) rhaid peidio â chael mwy na phedair lefel;
 - (ii) rhaid i'r uchder rhwng y lefelau fod yn 45 cm o leiaf;
 - (iii) rhaid i'r cyfleusterau yfed a bwydo gael eu dosbarthu mewn ffordd sy'n golygu bod cyfle cyfartal i bob iâr fynd atynt; a

SCHEDULE

Regulation 2(8)

"SCHEDULE 3A

regulation 5 A

NON-CAGE SYSTEMS

1. All newly built or rebuilt non-cage systems of production for keeping laying hens and all such systems of production brought into use for the first time shall comply with the requirements of this Schedule.

2. From 1st January 2007, all non-cage systems of production for keeping laying hens shall comply with the requirements of this Schedule.

3. All systems must be equipped in such a way that all laying hens have:

- (a) either linear feeders providing at least 10 cm per hen or circular feeders providing at least 4 cm per hen;
- (b) either continuous drinking troughs providing 2.5 cm per hen or circular drinking troughs providing 1 cm per hen, and, in addition, where nipple drinkers or cups are used, there shall be at least one nipple drinker or cup for every 10 hens. Where drinking points are plumbed in, at least two cups or two nipple drinkers shall be within reach of each hen;
- (c) at least one nest for every seven hens. If group nests are used, there must be at least 1 m² of nest space for a maximum of 120 hens;
- (d) perches, without sharp edges and providing at least 15 cm per hen. Perches must not be mounted above the litter and the horizontal distance between perches must be at least 30 cm and the horizontal distance between the perch and the wall must be at least 20 cm; and
- (e) at least 250 cm² of littered area per hen, the litter occupying at least one third of the ground surface.

4. The floors of installations must be constructed so as to support each of the forward-facing claws of each hen's foot.

5. In addition to the requirements of paragraphs 2 and 3 -

- (a) If systems of rearing are used where the laying hens can move freely between different levels -
 - (i) there shall be no more than four levels;
 - (ii) the headroom between the levels must be at least 45 cm;
 - (iii) the drinking and feeding facilities must be distributed in such a way as to provide equal access for all hens; and

- (iv) rhaid i'r lefelau gael eu trefnu i atal dom rhag cwmpo ar y lefelau islaw.
- (b) os gall ieir dodwy fynd i libart agored:
 - (i) rhaid cael sawl twll yn arwain yn uniongyrchol i'r fan allanol, o leiaf 35 cm o uchder a 40 cm o led ac yn ymestyn am hyd cyfan yr adeilad; a beth bynnag rhaid sicrhau bod agoriad sy'n gyfanswm o 2 m ar gael am bob grŵp o 1,000 o ieir; a
 - (ii) rhaid i libartau agored fod o arwynebedd sy'n briodol ar gyfer y dwysedd stocio a natur y tir, er mwyn atal unrhyw halogi, a bod wedi'u cyfarparu â chysgod rhag tywydd drwg ac ysglyfaethwyr ac, os oes eu hangen, â chafnau yfed priodol.

6. Yn ddarostyngedig i baragraff 7, rhaid i'r dwysedd stocio beidio â bod yn uwch na naw iâr ddodwy i bob metr sgwâr o le y gellir ei ddefnyddio.

7. Os oedd y sefydliad ar 3 Awst 1999 yn defnyddio system yr oedd y lle y gellid ei ddefnyddio yn cyfateb i'r arwynebedd tir a oedd ar gael, a bod y sefydliad yn dal i ddefnyddio'r system hon cyn 6 Awst 2002, awdurdodir dwysedd stocio o 12 iâr i bob metr sgwâr tan 31 Rhagfyr 2011.

- (iv) the levels must be so arranged as to prevent droppings falling on the levels below.
- (b) if laying hens have access to open runs:
 - (i) there must be several popholes giving direct access to the outer area, at least 35 cm high and 40 cm wide and extending along the entire length of the building; and in any case, a total opening of 2 m must be available per group of 1,000 hens; and
 - (ii) open runs must be of an area appropriate to the stocking density and to the nature of the ground, in order to prevent any contamination and equipped with shelter from inclement weather and predators and, if necessary, appropriate drinking troughs.

6. Subject to paragraph 7, the stocking density must not exceed nine laying hens per square metre of usable area.

7. Where on 3 August 1999 the establishment applied a system where the usable area corresponded to the available ground surface, and the establishment is still applying this system before 6th August 2002, a stocking density of 12 hens per square metre is authorised until 31 December 2011.

ATODLEN 3B

SYSTEMAU CEWYLL CONFENSIYNOL

1. O 1 Ionawr 2003 rhaid i bob system gewyll ar gyfer magu ieir dodwy nad ydynt wedi'u gwella gydymffurfio â'r gofynion canlynol:

- (a) rhaid darparu o leiaf 550 cm² i bob iâr o arwynebedd cawell, wedi'i fesur mewn plân llorweddol, a all gael ei ddefnyddio heb gyfyngiad, yn benodol heb gynnwys platiau ar gyfer dargyfeirio deunydd nad yw'n wastraff sy'n tueddu i gyfyngu ar yr arwynebedd sydd ar gael, ar gyfer pob iâr ddodwy, ond os yw'r plât ar gyfer dargyfeirio deunydd nad yw'n wastraff wedi'i osod er mwyn peidio â chyfyngu ar yr arwynebedd sydd ar gael i'r ieir ei ddefnyddio, yna gall yr arwynebedd hwnnw gael ei gynnwys yn y mesuriad;
- (b) rhaid darparu cafn bwydo a all gael ei ddefnyddio heb gyfyngiad. O ran hyd, rhaid iddo fod yn 10 cm wedi'i luosi â nifer yr ieir yn y cawell o leiaf;
- (c) oni bai bod pigynnau dŵr neu gwpanau dŵr wedi'u darparu, rhaid i bob cawell gael sianel yfed barhaol yr un mor hir â'r cafn bwydo y cyfeirir ato yn is-baragraff (b) uchod. Os yw'r manau yfed wedi'u plymio, rhaid cael o leiaf ddau bigyn dŵr neu ddau gwpan o fewn cyrraedd i bob cawell;
- (ch) rhaid i'r cewyll fod yn 40 cm o leiaf o uchder dros o leiaf 65% o arwynebedd y cawell ac nid

SCHEDULE 3B

CONVENTIONAL CAGE SYSTEMS

1. From 1st January 2003 all unenhanced cage systems of rearing laying hens shall comply with the following minimum requirements:

- (a) at least 550 cm² per hen of cage area, measured in a horizontal plane, which may be used without restriction, in particular not including non-waste deflection plates liable to restrict the area available, must be provided for each laying hen, however where the non-waste deflection plate is placed so as not to restrict the area available for the hens to use, then that area may be included in the measurement;
- (b) a feed trough which may be used without restriction must be provided. Its length must be at least 10 cm multiplied by the number of hens in the cage;
- (c) unless nipple drinkers or drinking cups are provided, each cage must have a continuous drinking channel of the same length as the feed trough mentioned in sub-paragraph (b) above. Where drinking points are plumbed in, at least two nipple drinkers or two cups must be within reach of each cage;
- (d) cages must be at least 40 cm high over at least 65% of the cage area and not less than 35 cm

llai na 35 cm ar unrhyw bwynt (ceir yr uchder drwy gyfrwng llinell fertigol o'r llawr i'r pwynt agosaf yn y to a cheir yr arwynebedd drwy luosi 550cm² â nifer yr adar a gedwir yn y cawell);

- (d) rhaid adeiladu lloriau'r cewyll fel y gallant gynnal pob un o'r crafangau sy'n wynebu ymlaen ar bob troed i bob iâr. Rhaid i ogwyddiad y llawr beidio â bod yn fwy na 14% neu 8 gradd os yw wedi'i wneud o rwyllau gwifrog petryal ac 21.3% neu 12 gradd ar gyfer mathau eraill o lawr;
- (dd) rhaid gosod dyfeisiau addas ar gyfer cwtogi crafangau yn y cewyll.

2. Gwaherddir magu ieir dodwy yn y cewyll y cyfeirir atynt yn yr Atodlen hon o 1 Ionawr 2012 ymlaen.

3. Ni ellir adeiladu cewyll o'r math y cyfeirir atynt yn yr Atodlen hon, na dechrau eu defnyddio am y tro cyntaf, o 1 Ionawr 2003 ymlaen.

ATODLEN 3C

SYSTEMAU CEWYLL GWELL

1. Rhaid i bob system gewyll ar gyfer magu ieir dodwy gydymffurfio â gofynion yr Atodlen hon o 1 Ionawr 2012 ymlaen.

2. Rhaid i bob system gewyll sy'n cael ei hadeiladu neu y dechreuir ei defnyddio er mwyn magu ieir dodwy ar 1 Ionawr 2003 neu ar ôl hynny gydymffurfio â gofynion yr Atodlen hon.

3. Rhaid i ieir dodwy gael -

- (a) o leiaf 750 cm² o arwynebedd cawell i bob iâr, y mae'n rhaid i 600 cm² ohono allu cael ei ddefnyddio; rhaid i uchder y cawell heblaw'r uchder uwchben y lle y gellir ei ddefnyddio fod yn 20 cm o leiaf ym mhob pwynt ac ni all unrhyw gawell fod yn llai na 2000 cm² o gyfanswm arwynebedd;
- (b) nyth;
- (c) llaesodr sy'n golygu ei bod yn bosibl pigo a chrafu;
- (ch) clwydi priodol sy'n caniatáu o leiaf 15 cm i bob iâr.

4. Rhaid darparu cafn bwydo a all gael ei ddefnyddio heb gyfyngiad. O ran hyd, rhaid iddo fod yn 12 cm wedi'i luosi â nifer yr ieir yn y cawell o leiaf.

5. Rhaid i bob cawell gael system yfed sy'n briodol ar gyfer maint y grŵp; os darperir pigynnau dŵr, rhaid cael o leiaf ddau bigyn dŵr neu ddau gwpan o dŵr fewn cyrraedd i bob iâr.

6. Er mwyn hwyluso archwilio, gosod a diboblogi'r ieir rhaid cael ale o 90 cm o led o leiaf

at any point (the height being obtained by a vertical line from the floor to the nearest point in the roof and the area being obtained by multiplying 550cm² by the number of birds kept in the cage);

- (e) floors of cages must be constructed so as to support each of the forward-facing claws of each foot of each hen. Floor slope must not exceed 14% or 8 degrees when made of rectangular wire mesh and 21.3% or 12 degrees for other types of floor;
- (f) cages shall be fitted with suitable claw-shortening devices.

2. Rearing laying hens in the cages referred to in this Schedule is prohibited with effect from 1 January 2012.

3. No cages such as are referred to in this Schedule may be built or brought into service for the first time from 1 January 2003.

SCHEDULE 3C

ENHANCED CAGE SYSTEMS

1. All cage systems for rearing laying hens shall comply with the requirements of this Schedule with effect from 1 January 2012.

2. All cage systems built or brought into service for the purpose of rearing laying hens on or after 1st January 2003 shall comply with the requirements of this Schedule.

3. Laying hens must have -

- (a) at least 750 cm² of cage area per hen, 600 cm² of which must be usable; the height of the cage other than that above the usable area shall be at least 20 cm at every point and no cage shall have a total area that is less than 2000 cm²;
- (b) a nest;
- (c) litter such that pecking and scratching are possible;
- (d) appropriate perches allowing at least 15 cm per hen.

4. A feed trough which may be used without restriction must be provided. Its length must be at least 12 cm multiplied by the number of hens in the cage.

5. Each cage must have a drinking system appropriate to the size of the group; where nipple drinkers are provided, at least two nipple drinkers or two cups must be within the reach of each hen.

6. To facilitate inspection, installation and depopulation of hens there must be a minimum aisle

rhwng haenau o gewyll a rhaid caniatáu 35 cm o leiaf rhwng llawr yr adeilad a haen isaf y cewyll.

7. Rhaid gosod dyfeisiau addas ar gyfer cwtogi crafangau yn y cewyll.

ATODLEN 3Ch

AMODAU SY'N GYMWYS I BOB SYSTEM

1. Rhaid i bob iâr gael ei harchwilio gan y perchennog neu'r person sy'n gyfrifol amdanynt o leiaf unwaith y dydd.

2. Rhaid cadw lefel y sŵn i'r lleiaf posibl. Rhaid osgoi sŵn cyson neu sydyn. Rhaid i wyntyllau awyru, peiriannau bwydo neu offer eraill gael eu hadeiladu, eu lleoli, eu gweithredu a'u cynnal mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn cadw cyn lleied â phosibl o sŵn.

3. Rhaid cael lefelau digonol o olau ym mhob adeilad i ganiatáu i bob iâr weld ei gilydd a chael ei gweld yn glir, ymchwilio i'w hamgylchoedd yn weledol a dangos lefelau gweithgarwch arferol. Os oes goleuni naturiol, rhaid trefnu'r agoriadau goleuni mewn ffordd sy'n golygu bod y goleuni'n cael ei wasgaru'n gyfartal yn y llety.

Ar ôl y dyddiau cyntaf o ymgylfarwyddo, rhaid i'r gyfundrefn oleuo fod yn gyfryw ag i atal problemau iechyd ac ymddygiad. Gan hynny, rhaid iddi ddilyn rhythm 24-awr a chynnwys cyfnod di-dor digonol o dywyllwch sy'n para tua un rhan o dair o'r diwrnod, er mwyn i'r ieir gael gorffwys ac i osgoi problemau megis gostwng imwedd ac anhwylderau ar y llygaid. Dylid darparu gwyll digon hir, pan gaiff y golau ei bylu, er mwyn i'r ieir setlo heb gael eu haflonyddu na'u hanafu.

4. Rhaid i'r rhannau hynny o adeiladau, offer neu lestri sydd mewn cysylltiad â'r ieir gael eu glanhau a'u diheintio'n rheolaidd a phob tro y ceir diboblogi beth bynnag a chyn dod â llwyth newydd o ieir i mewn. Tra bydd ieir yn y cewyll, rhaid i'r arwynebau a'r holl offer gael eu cadw'n foddhaol o lân. Rhaid i dom gael ei symud ymaith mor aml ag y bydd angen a rhaid symud ieir marw oddi yno bob dydd.

5. Rhaid cyfarparu'r cewyll yn addas i atal yr ieir rhag dianc.

6. Rhaid i lety sy'n cynnwys dwy neu fwy o haenau o gewyll gael dyfeisiau neu rhaid cymryd mesurau priodol i ganiatáu i bob haen gael ei harchwilio heb anhawster ac i hwyluso symud ieir oddi yno.

7. Rhaid i ddyluniad a dimensiynau drws y cawell fod yn gyfryw ag i iâr lawndwf gael ei thynnu oddi yno heb ddiodef yn ddiangen a heb ei niweidio.

width of 90 cm between tiers of cages and a space of at least 35 cm must be allowed between the floor of the building and the bottom tier of cages.

7. Cages must be fitted with suitable claw-shortening devices.

SCHEDULE 3D

CONDITIONS APPLICABLE TO ALL SYSTEMS

1. All hens must be inspected by the owner or the person responsible for the hens at least once a day.

2. The sound level shall be minimised. Constant or sudden noise shall be avoided. Ventilation fans, feeding machinery or other equipment shall be constructed, placed, operated and maintained in such a way that they cause the least possible noise.

3. All buildings shall have light levels sufficient to allow all hens to see one another and be seen clearly, to investigate their surroundings visually and to show normal levels of activity. Where there is natural light, light apertures must be arranged in such a way that light is distributed evenly within the accommodation.

After the first days of conditioning, the lighting regime shall be such as to prevent health and behavioural problems. Accordingly it must follow a 24-hour rhythm and include an adequate uninterrupted period of darkness lasting approximately one third of the day, so that the hens may rest and to avoid problems such as immunodepression and ocular anomalies. A period of twilight of sufficient duration ought to be provided when the light is dimmed so that the hens may settle down without disturbance or injury.

4. Those parts of buildings, equipment or utensils which are in contact with the hens shall be thoroughly cleansed and disinfected regularly and in any case every time depopulation is carried out and before a new batch of hens is brought in. While the cages are occupied, the surfaces and all equipment shall be kept satisfactorily clean. Droppings must be removed as often as necessary and dead hens must be removed every day.

5. Cages must be suitably equipped to prevent hens escaping.

6. Accommodation comprising two or more tiers of cages must have devices or appropriate measures must be taken to allow inspection of all tiers without difficulty and facilitate the removal of hens.

7. The design and dimensions of the cage door must be such that an adult hen can be removed without undergoing unnecessary suffering or sustaining injury.

8. Yn ddarostyngedig i baragraff 9, ni chaiff unrhyw berson lurgunio unrhyw iâr ddodwy.

9. Er mwyn osgoi plubigo a chanibaliaeth, hyd at 31 Rhagfyr 2010 caniateir tocio pigau adar yn yr holl systemau y cyfeirir atynt yn Atodlenni 3A, 3B a 3C ar yr amod ei fod yn cael ei wneud -

- (a) gan bersonau dros 18 oed;
- (b) i ieir sy'n llai na 10 diwrnod oed y bwriedir hwy ar gyfer dodwy; ac
- (c) yn unol â Gorchymyn Llawfeddygaeth Filfeddygol (Esemptiadau) 1962(a)."

8. Subject to paragraph 9, no person shall mutilate any laying hen.

9. In order to prevent feather pecking and cannibalism, until 31 December 2010 beak trimming of birds is permitted in all systems referred to in Schedules 3A, 3B and 3C provided it is carried out -

- (a) by persons over 18 years of age;
- (b) on chickens that are less than 10 days old and intended for laying; and
- (c) in accordance with the Veterinary Surgery (Exemptions) Order 1962 (a)."

(a) O.S. 1962/2557.

(a) S.I. 1962/2557.

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif 1898 (Cy.199)

ANIFEILIAID, CYMRU

ATAL CREULONDEB

Rheoliadau Lles Anifeiliaid a
Ffermir (Cymru) (Diwygio)
2002

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 No. 1898 (W.199)

ANIMALS, WALES

PREVENTION OF CRUELTY

The Welfare of Farmed Animals
(Wales) (Amendment) Regulations
2002

© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.50

W120/08/02

ON

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090545-8



9 780110 905457